# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DYDD MERCHER, 30AIN TACHWEDD 2016 AM 2.00PM

YN BRESENNOL

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), N. George (Gwasanaethau Hamdden a Chymunedol), D. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), D.V. Poole (Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Dai), T.J. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg), R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau) ac N. Scammell (Cyfarwyddwraig Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog 151).

Hefyd yn Bresennol:

S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), B. Hopkins (Is-Gyfarwyddwr - Addysg) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr K. James a K. Reynolds a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 2. DATGANIADAU DIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 16EG TACHWEDD 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Tachwedd 2016 (rhifau cofnod. 1- 8) i'w cymeradwyo a'u llofnodi fel yn gofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. YSGOL DDILYNOL 3-18 ARFAETHEDIG RHYMNI

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gychwyn proses ymgynghori i sefydlu ysgol 3-18 Rhymni.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a sefydlu dulliau arloesol o addysgu a dysgu, sy'n cynnwys sicrhau gwell canlyniadau trwy gynyddu parhad mewn dysgu disgyblion a strategaeth gydgysylltiedig at ddysgu, gofal bugeiliol a chymorth.

Nododd y Cabinet y cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Aelodau lleol a chynrychiolwyr o Ysgolion Cynradd Abertyswg a Phontlotyn ac Ysgol Gyfun Rhymni yn ystod tymor yr haf 2016. Roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol 3-18 Rhymni. Byddai'r cynnig yn ymgorffori Ysgol Gynradd Abertyswg / Pontlotyn newydd a'r Ysgol Gyfun Rhymni presennol ar eu safleoedd. Nid oes datblygiad ychwanegol arfaethedig penodol ar gyfer y cynnig hwn.

Eglurodd Swyddogion fod, er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig, mae angen proses ymgynghori statudol. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd dros gyfnod o 6 wythnos rhwng 3 Ionawr a 16 Chwefror, 2017. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i ystyried y safbwyntiau a fynegwyd a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y penderfyniad yn cael ei gymryd i symud ymlaen, bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi. Bydd y cyfnod rhybudd statudol yn para am 28 niwrnod o ddyddiad y rhybudd er mwyn galluogi pobl i fynegi eu barn ar ffurf cefnogaeth neu wrthwynebiad i'r cynnig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno i gychwyn proses ymgynghori er mwyn sefydlu Ysgol 3-18 Rhymni

## 5. CAU ARFAETHEDIG - YSGOL UWCH CWMCARN

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ynglŷn â'r bwriad i gau Ysgol Uwch Cwmcarn a datblygiadau cysylltiedig.

Ar 27ain Mehefin 2016, gwnaeth Corff Llywodraethu Ysgol Uwch Cwmcarn y penderfyniad i geisio cau'r ysgol, er gwaethaf eu hymdrechion gorau i gadw'r ysgol ar agor ac oherwydd yr amgylchiadau digynsail (asbestos, adleoli, nifer gostyngol o ddisgyblion) y mae'r ysgol wedi'i wynebu ers 2012. Gofynnwyd am y penderfyniad hwn yn unol ag Adran 80 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg i Gadeirydd y Llywodraethwyr yn rhoi caniatâd i gyhoeddi hysbysiad o dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i derfynu'r ysgol. O ganlyniad, ar 10fed Hydref 2016, ysgrifennodd Cadeirydd y Llywodraethwyr, ar ran y Corff Llywodraethu, i Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg i roi rhybudd ysgrifenedig o ddwy flynedd i Weinidogion Cymru o'u bwriad i derfynu'r ysgol. Hysbyswyd y Cyngor hefyd o'r penderfyniad ar y pryd drwy lythyr.

Nododd y Cabinet fod achos busnes gwerth £3 miliwn wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, yn amodol ar 50% o arian cyfatebol yn cael ei ddarparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er mwyn cynllunio ar gyfer y cau. Mae'r cais yn cynnwys cynlluniau ar gyfer ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn Ysgol Trecelyn i reoli'r cynnydd cychwynnol mewn disgyblion ac i ymgymryd â gwaith dymchwel yn Ysgol Uwch Cwmcarn ac Ysgol Trecelyn.

Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau fod y Cyngor, ynghyd â'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg (GCA) a'r ysgol, yn gweithio ar y cyd i sicrhau na fydd y disgyblion dan anfantais addysgol a bydd adroddiadau diweddaru pellach yn cael eu darparu wrth i fanylion ddod i'r amlwg mewn perthynas â phenderfyniad y Corff Llywodraethu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) y dylid nodi penderfyniad y Corff Llywodraethu i derfynu'r ysgol o fewn 2 flynedd;

(ii) i gytuno ar y buddsoddiad cyfalaf mewn perthynas ag ysgolion Trecelyn a Chwmcarn a'r dyraniad o £1.5milliwn fel arian cyfatebol 50% CBSC;

(iii) Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Corff Llywodraethu a'r staff yn yr ysgol ynglŷn â chynllunio cyllideb yr ysgol, staffio a materion derbyn;

(iv) adroddiadau diweddaru rheolaidd i gael eu darparu wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

## 6. CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT AR GYFER 2017/18

Rhoddodd yr adroddiad fanylion y cynigion cyllideb drafft a chynigion arbedion drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 i'r Cabinet er mwyn caniatáu am gyfnod o ymgynghori cyn gwneud penderfyniad terfynol ym mis Chwefror 2017.

Nododd y Cabinet y Prif faterion yn y Datganiad Dros Dro, a gyhoeddwyd ar y 19eg Hydref 2016 a'r Cynigion Drafft 2017/18 gan gynnwys cynnig i gynyddu Treth y Cyngor o 1%. Roedd yr adroddiad yn amlinellu Pwysau Cost Awdurdod Cyfan (cyfanswm o £2.745miliwn), Pwysau Gwasanaeth Anochel (cyfanswm o £6.186miliwn), a'r Gostyngiad mewn Cyllid gan Lywodraeth Cymru (cyfanswm o £0.608miliwn). Yn ogystal, amlinellodd yr adroddiad y Cynigion Arbedion Drafft 2017/18 (cyfanswm o £8.653miliwn) a'r Ymgodiad mewn Treth y Cyngor ((1%) cyfanswm o £0.886 miliwn), a fydd yn sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gyflawni ar gyfer 2017/18.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog a'r holl staff am eu gwaith caled a'u hymdrechion er mwyn nodi arbedion pellach a chynnig cyllideb gytbwys.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i gymeradwyo cynigion cyllideb drafft 2017/18 gan gynnwys yr arbedion arfaethedig sy'n gyfanswm o £8.653m;

(ii) i gytuno ar y cynnig i gynyddu Treth y Cyngor o 1% ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 isicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gyflawni (Band D Treth y Cyngor i'w osod ar £1,011.96);

(iii) y bydd cynigion cyllideb drafft yn destun ymgynghoriad cyn i gyllideb derfynol 2017/18 gael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor yn Chwefror 2017.

**7. CEISIADAU CYFALAF**

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cynigion i ddefnyddio'r cyfalaf wrth gefn a glustnodwyd o £7.9miliwn y cytunwyd arno fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 24ain Chwefror 2016.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion cynigion sydd wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer defnyddio'r £7.9miliwn o gyfalaf wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 24ain Chwefror.

Cyfanswm gwerth y cynigion a flaenoriaethwyd yw £8.763miliwn sy'n uwch na'r cyfalaf wrth gefn a glustnodwyd o £863 mil. Cynigir bod y £863 mil ychwanegol yn cael ei gyllido o ad-daliad yswiriant untro a dderbyniwyd gan y contractwr ar gyfer y Cynllun PFI Ffordd Fenter Sirhywi.

Nododd y Cabinet fod y cynigion yn cynnwys nifer o brosiectau ar draws y fwrdeistref, megis prynu 9 Cerbyd Casglu Sbwriel Pecyn Deuol er mwyn galluogi gwahanu gwastraff bwyd a gardd; dymchwel ac ailadeiladu Pwll Nofio Longbridge, Rhisga (Cam 1 a 2); addasu'r cyn-Ganolfan Pryd ar Glud, Pengam er mwyn ei ddefnyddio fel swyddfa; uwchraddio'r Ganolfan Plant ar Gyfer Plant ag Anghenion Cymhleth; cynllun draenio i gael ei weithredu yn y safle tirlenwi caeedig yn Nhŷ Llwyd ac arian cyfatebol ar gyfer Ysgolion Trecelyn/Cwmcarn, yn dilyn y cyhoeddiad y bydd Ysgol Uwch Cwmcarn yn cau ymhen dwy flynedd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) bydd y cynigion sydd wedi'u blaenoriaethu a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo;

(ii) i gytuno y dylai'r £863 mil o gost ychwanegol sy'n fwy na'r £7.9 miliwn o gyfalaf wrth gefn a glustnodwyd a gymeradwywyd gael ei ariannu gan yr ad-daliad yswiriant untro o £919 mil a dderbyniwyd gan y contractwr ar gyfer y cynllun PFI Ffordd Fenter Sirhywi.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.31pm

Cymeradwywyd a Llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 14eg Rhagfyr 2016.

______________________

CADEIRYDD